

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 8fed o Dachwedd 2018 yn Festri Salem am 7.30

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Eifion Davies, Dewi Jones, Siân Anwyl Jones, Eryl Owain ynghyd â'r clerc, Elfed Williams a'r Cynghorydd Sir, Wyn Ellis Jones.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Claire Roberts, Lyn McFadden, a Geraint Thomas.

Cyflwyniad Cwmni SevernWye: Estynnwyd croeso i Mark Gehan o'r cwmni a chafwyd cyflwyniad ganddo ar ddatblygiadau ac ar fwriadau'r cwmni sy'n arbenigo ar hyrwyddo cynlluniau cymunedol. Eglurodd y bydd ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ym Mhenmachno a Cwm ar y 9fed a'r 20fed o Dachwedd pryd y bydd cyfle i'r cyhoedd dderbyn gwybodaeth a datgan barn ar broblemau megis diffyg cyfleusterau, prinder siopau, tai'n cael eu gwerthu fel tai gwyliau ac adeiladau gwag. Penderfynwyd cefnogi'r bwriadau hyn, Sian Anwyl yn cynnig ac Eryl Owain yn eilio.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 13eg o Fedi 2018 fel rhai cywir, Dewi Jones yn cynnig a Colin Jones yn eilio.

Materion yn codi:

Ffordd Hafod-y-rhedwydd: Cafwyd wybod gan Gyfoeth Naturiol Cymru fod trafodaethau i sicrhau fod trigolion rhesdai Carrog yn gallu parcio eu ceir ar dir ffarm Carrog fel na fyddent yn rhwystr i lorïau.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Cafwyd adroddiad o gyfarfod rhwng CNC a chynrychiolaeth o'r Cyngor Cymuned i drafod cynnig CNC i gyflwyno llain o dir coedwigaeth i ofal y cyngor at ddefnydd y gymuned. Cynigiwyd gan Sian Anwyl ac eiliwyd gan Dewi Jones i gefnogi'r bwriad mewn egwyddor ond i geisio mwy o wybodaeth.

Ffyrdd: Dim gwybodaeth am y cais i gyflwyno gwaharddiad parcio 20 milltir yr awr ger yr ysgol. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Sir holi.

Addasu Sgubor Bryn Crug yn Lety Gwyliau: Cafwyd ymateb gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i lythyr y cyngor ynglŷn â phenderfyniad yr Awdurdod i ganiatau'r cais, sydd y tu allan i'r ardal ddatblygu tai lleol, yn groes i farn y cyngor. Roedd yr ymateb yn dweud fod y prosesau a'r polisiau priodol wedi eu dilyn.

Mynwent yr Eglwys: Nid oedd prisiau ar gyfer gwaith tacluso wedi eu derbyn.

Mynwent Arwelfa: Penderfynwyd bod angen arwydd newydd a gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau.

Llwybr Blaen-cwm: Penderfynwyd gofyn i'r Brodyr Roberts i wneud gwaith lefelu, tacluso a llenwi tyllau ar y llwybr.

Pwyllgor Cinio Henoed: Cytunwyd i dalu cost y bws i fynd â'r henoed i Betws-y-coed, sef £230.

Gwobr Pentref y Flwyddyn: Llongyfarchwyd Sian Anwyl a Claire Roberts a phawb oedd ynghlwm â chyflwyno cais Bro Machno i gystadleuaeth Pentref y Flwyddyn Sir Conwy, a drefnir gan Ymgyrch Ddiogelu Cymru Wledig, ac ar ddod yn fuddugol. Penderfynwyd gosod y plac carreg ar y Grîn ym Mhenmachno a derbyniwyd yn ddiolchgar gynnig Wyn Ellis Jones i argraffu llun maint llawn o'r garreg, i'w arddangos hwnnw yng Nghanolfan Siloh yn Cwm.

Ffarm Carrog: Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd ac Eryl Owain o gyfarfod ar y safle gyda Dewi Davies a swyddogion eraill o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i drafod y cynllun ar gyfer rheoli'r afon ger dolydd Carrog. Roedd y cais cynllunio a gyflwynwyd i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn wahanol i'r hyn a gytunwyd yn wreiddiol. Eglurodd Dewi Davies fod camgymeriadau dylunio yn y cais cynllunio ac y byddai'r cais yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â'r hyn a gytunwyd.

Mast ffôn argyfwng: Adroddodd y clerc y bydd y cais yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Cynllunio'r Parc Cenedlaethol ar y 5ed o Dachwedd.

Materion Ariannol: Cadarnhawyd talu dau fil, £139.03 i Gyfrifaduron Cennin am gynnal a chadw'r wefan a £330 i John Burton am waith ar y llwybrau. Cynigiwyd gan Dewi Jones, eiliwyd gan Eryl Owain.

Materion eraill:

Y Clerc: Yn dilyn mynychu digwyddiad ym Mhlas y Brenin lle'r oedd Dewi Davies o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn siarad, dywedodd y clerc ei fod wedi derbyn galwad ffôn yn ddiweddarach y noson honno gan DD a'i fod wedi cyhuddo'r clerc o ddylanwadu ar benderfyniadau'r Cyngor Bro ynglŷn â ffarm Carrog. Penderfynwyd y dylai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd (Dafydd Gwyndaf ac Eryl Owain) ofyn am gyfarfod efo Trystan Edwards, Rheolwr Ardal Eryri o'r Ymddiriedolaeth.